

Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu

Dydd Llun 11 Mai 2020 – (12:30-14:30pm)

Cyfarfod Skype

1. Cyflwyniad

- 1.1 Diolchodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r aelodau am barhau i gyfarfod yn rhithwir yn ystod pandemig COVID-19. Eglurodd y byddai Karen Higgins yn monitro unrhyw faterion a godwyd gan yr aelodau yn ystod trafodaethau drwy e-bost a negeseuon uniongyrchol fel bod modd mynd i'r afael â'r rhain ar ddiwedd pob eitem. Cyn dechrau'r cyfarfod yn ffurfiol gofynnodd a hoffai unrhyw un godi unrhyw fater nad oedd ar yr agenda.
- 1.2 Cyfeiriodd Mike Payne at yr amwysedd roedd llawer o'i aelodau yn ei brofi yn sgil cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU am lacio rhai cyfyngiadau symud yn raddol yn Lloegr ac effaith bosibl hyn ar ddarparu cyfarpar diogelu personol.

2. COVID-19: Diweddariad Cyffredinol

- 2.1 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i Helen Arthur roi diweddariad cyffredinol ar y mesurau i fynd i'r afael â COVID-19. Cadarnhaodd Helen Arthur fod Llywodraeth Cymru yn briffio'r undebau llafur yn rheolaidd ar amrywiaeth o faterion technegol. Eglurodd fod yr adborth a gafwyd ar ffurfiau gwahanol yn dangos bod ymddiriedaeth yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn gwella'n raddol ledled Cymru. Ychwanegodd fod cynnydd da yn cael ei wneud o ran cynnal profion ac y byddai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), yn llunio strategaeth yn fuan yn amlinellu sut y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn. Hefyd cadarnhaodd fod y capasiti o ran gwelyau gofal critigol wedi gwella'n sylweddol.
- 2.2 Nododd Tanya Palmer fod angen mwy o eglurder ynghylch y dull o olrhain cysylltiadau yng Nghymru. Pwysleisiodd y ffaith bod amwysedd yn hyn o beth yn sgil y canfyddiad bod y broses o olrhain cysylltiadau yn cael ei lacio yn Lloegr. Cadarnhaodd Helen Arthur fod hyn yn cael ei ystyried ac y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud cyhoeddiad yn fuan. Ychwanegodd y gellid gweld manylion am yr holl faterion hyn yn y briff technegol ar gyfer yr undebau llafur y bwriedid ei gyhoeddi yfory.
- 2.3 Cadarnhaodd Julie Cook nad oedd wedi gweld dogfen ganllaw Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac amlinellodd rai o'i phryderon ynghylch cyfathrebu. Cadarnhaodd Helen Arthur y byddai'n rhoi copi o'r canllawiau i'r aelodau.
- 2.4 Cadarnhaodd Chris Llewelyn fod y sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol wedi gwella'n sylweddol o fewn llywodraeth leol. Pwysleisiodd y ffaith ei

bod hi'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol o ran cynnal profion ac olrhain cysylltiadau wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd Helen Arthur y bydd olrhain cysylltiadau yn rhan ganolog o'r gwaith o ymdrin â COVID-19, ac yr ymgysylltir â phob partner.

2.5 Cyfeiriodd Reg Kilpatrick at adroddiadau diweddar yn y cyfryngau yn awgrymu bod cyfyngiadau symud wedi cael eu codi ledled y DU.

Pwysleisiodd fod y cyfyngiadau symud yn dal i fod yn eu lle yng Nghymru, ac mai dim ond ychydig bach o ddiwygiadau a oedd wedi cael eu gwneud. Ymhlith y rhain roedd yr hyblygrwydd i wneud ymarfer corff yn fwy aml, ailagor canolfannau garddio (yn amodol ar gadw pellter cymdeithasol) a galluogi awdurdodau lleol i gynllunio i ailagor rhai gwasanaethau megis llyfrgelloedd a chanolfannau ailgylchu. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod yn bwyllog er mwyn sicrhau bod y gyfradd heintio, y ffigur R, yn parhau islaw 1. Ychwanegodd fod y ffigur R rhwng 0.7 a 0.9 yng Nghymru ar hyn o bryd ac amlinellodd y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a fyddai'n debygol o gael eu heintio a marw pe byddai'r ffigur yn mynd uwchlaw 1.

2.6 Cadarnhaodd, o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn llacio'r cyfyngiadau symud, y gallai hyn gael effaith ar Gymru petai pobl o Loegr yn ceisio ymweld â rhai o gyrchfannau twristiaeth adnabyddus Cymru gan gynyddu'r siawns o ledaenu'r feirws. Ychwanegodd y byddai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi dogfen ganllaw yn fuan yn egluro'r broses o lacio'r cyfyngiadau symud yn fanylach, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio rhywbeth tebyg, mewn ymgynghoriad â phartneriaid, ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru.

Cam Gweithredu: Helen Arthur i drefnu bod copi o ddogfen ganllaw lechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gael i'r aelodau, drwy Gydysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.

3. COVID-19: Gwaith y Cwnsler Cyffredinol ar Adfer

3.1 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i Gareth Bevington ddarparu diweddariad ar waith adfer y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â COVID-19. Eglurodd Gareth Bevington fod y Cwnsler Cyffredinol yn cadeirio dau fwrdd adfer COVID-19; roedd un yn fewnol i Lywodraeth Cymru ac roedd y llall yn cynnwys grŵp cyfeirio arbenigol allanol. Cadarnhaodd y cynhaliwyd tri chyfarfod bord gron yr wythnos diwethaf a bod tri arall ar y gweill. Ychwanegodd y bydd unrhyw gytundebau a negeseuon yn seiliedig ar farn y partneriaid sy'n eistedd ar y byrddau.

3.2 Cefnogodd Mike Payne y camau cyffredinol a gymerir yng Nghymru i adfer ond mynegodd bryderon ynghylch effaith unrhyw ddulliau amgen a gynigir yn Lloegr, yn enwedig yn dilyn cyhoeddiad diweddar Boris Johnson am godi'r cyfyngiadau symud. Roedd o'r farn bod hyn wedi creu ansicrwydd ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â gweithle diogel a phryd y bydd yn ddiogel dychwelyd i'r gwaith. Cadarnhaodd Gareth Bevington fod effaith y

gwahanol ddulliau a gaiff eu mabwysiadu yn Lloegr yn cael eu trafod gan y byrddau adfer a arweinir gan y Cwnsler Cyffredinol.

3.3 Eglurodd Steve Davies fod y Gweinidog Addysg wedi bod yn glir iawn ynghych sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran ailagor ysgolion. Cadarnhaodd fod hyn wedi bod yn seiliedig ar drafodaethau rheolaidd â phartneriaid cymdeithasol ac y byddai Llywodraeth Cymru yn fuan yn cyhoeddi dogfen fframwaith yn amlinellu sut y gallai ysgolion ailagor yn symud ymlaen. Ychwanegodd fod i'r cyhoeddiadau diweddar am lacio'r cyfyngiadau symud gan Lywodraeth y DU oblygiadau i addysg yng Nghymru, a bod y rhain yn cael eu hystyried wrth lunio'r ddogfen fframwaith.

3.4 Pwysleisiodd Tanya Palmer bwysigrwydd bod yn glir ynghylch amserlenni ar gyfer ailagor ysgolion a bod angen sicrhau bod yr undebau llafur, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli staff cymorth, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Ychwanegodd Mike Payne fod UNSAIN, Unite a GMB yn Lloegr wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ar ailagor ysgolion. Cadarnhaodd Steve Davies fod swyddogion addysg Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â'r undebau llafur ddwywaith yr wythnos. Cadarnhaodd y byddai'r Gweinidog Addysg yn rhoi gwybod ymlaen llaw i'r undebau llafur am gynigion i ailagor ysgolion, gan roi amser iddynt gynllunio eu datganiadau i'r wasg ac ati eu hunain.

4. COVID 19: Diogelu Cynnydd

4.1 Estynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wahoddiad i Fliss Bennee, sef Cydgadeirydd Cell Cyngor Technegol COVID-19, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod am y camau a gymerir i ddiogelu cynnydd mewn perthynas â COVID-19. Dechreuodd Fliss Bennee drwy gadarnhau bod y Gell Cyngor Technegol wedi cyhoeddi rhywfaint o'i waith modelu ei hun ar COVID-19 a chadarnhaodd fod y gwerth R yn gostwng yng Nghymru. Nododd fod y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) yn canolbwyntio ar ffyrdd o ddiogelu cynnydd wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio'n raddol. Ychwanegodd, yn seiliedig ar y dystiolaeth, mai cyfarpar diogelu personol yw'r ffordd lleiaf effeithiol o reoli'r feirws, a bod ymddygiadau megis cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo'n amlach a glanhau arwynebau yn bwysicach. Wrth symud ymlaen pwysleisiodd y byddai'r ffocws ar ddatblygu system gadarn o gynnal profion ac olrhain cysylltiadau yng Nghymru.

4.2 Pwysleisiodd Tanya Palmer fod gan gynrychiolwyr iechyd a diogelwch undebau llafur ran ganolog i'w chwarae wrth gynnal asesiadau risg mewn sefydliadau, ac y dylid eu blaenoriaethu o ran cael unrhyw ddiweddariadau ar ddiogelwch yn y gweithle gan grwpiau megis SAGE a'r Gell Cyngor Technegol. Cadarnhaodd Fliss Bennee y gellir eu blaenoriaethu yn hyn o beth ar y cyd â chynrychiolwyr iechyd a diogelwch sefydliadol cyrff cyhoeddus. Pwysleisiodd Julie Cook ei bod hi'n bwysig i gyflogwyr roi amser cyfleuster i gynrychiolwyr undebau llafur ymdrin â'r materion sy'n deillio o COVID-19 a godir gan eu haelodau. Ailategodd Mike Payne bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng undebau llafur a Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â COVID-19.

Cam Gweithredu: Fliss Bennee i sicrhau bod Cell Cyngor Technegol COVID-19 yn blaenoriaethu cynrychiolwyr iechedd a diogelwch sefydliadau ac undebau llafur wrth rannu cyngor ar ddiogelwch yn y gweithle.

5. Cronfa Cadernid Economaidd

- 5.1 Estynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wahoddiad i Duncan Hamer roi diweddariad ar y Gronfa Cadernid Economaidd. Eglurodd Duncan Hamer fod y Gronfa yn cyd-fynd â'r £1.7 biliwn o gymorth a roddir i fusnesau gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd ei bod yn darparu £500 miliwn o gyllid i gadw cynifer o fusnesau â phosibl yn hyfyw, a bod £300 miliwn wedi cael ei ddyrannu eisoes. Ychwanegodd fod busnesau nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer TAW yn cael blaenoriaeth, ac mai un o amodau cael y cymorth hwn yw na fydd cwmnïau yn diswyddo staff. Hefyd, cadarnhaodd fod cymorth nad yw'n ariannol yn cael ei gynnig, gan gynnwys cyrsiau hyfforddi am ddim.
- 5.2 Eglurodd Mike Payne fod rhai cwmnïau sy'n cael arian drwy'r Gronfa yn dal i ddiswyddo staff, a gofynnodd sut roedd Llywodraeth Cymru yn monitro hyn. Cadarnhaodd Duncan Hamer fod gan Lywodraeth Cymru brosesau ar waith i asesu'r sefyllfaoedd hyn a bod darpariaethau ar waith i adennill unrhyw arian lle y bo angen. Gofynnodd Julie Cook a oedd unrhyw ofynion iechedd a diogelwch y mae angen eu bodloni gan gwmnïau sy'n cael cymorth drwy'r Gronfa. Cadarnhaodd Duncan Hamer nad oedd hyn yn un o amodau penodol y Gronfa, ond y dylai cwmnïau fod yn dilyn rheoliadau iechedd a diogelwch.

6. Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

- 6.1 Estynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wahoddiad i Jo Salway roi diweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg. Cadarnhaodd Jo Salway na fyddai'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol yn cael ei gyflwyno yn ystod y tymor hwn, a'i bod yn fwrriad gan Lywodraeth Cymru i lunio drafft erbyn diwedd y flwyddyn neu ddechrau 2021. Eglurodd y byddai cyhoeddi'r drafft yn profi cynigion gyda phartneriaid a phwysleisiodd, er bod pandemig COVID-19 wedi oedi ei gyhoeddi, y byddai'r un materion o ran cymhwysedd yn gymwys. Cadarnhaodd fod arweinwyr polisi o fewn y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg yn awyddus i ymgysylltu â phartneriaid ar y Bil er mwyn gweld i ba raddau y croesewir ei ddarpariaethau o fewn Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.
- 6.2 Pwysleisiodd Julie Cook bwysigrwydd cydnabod rôl gweithwyr rheng flaen yn y Bil. Tynnodd Tanya Palmer sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y Bil yn cydnabod materion ynghylch cyflog ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol a staff y GIG yn cael eu trin yn fwy cyfartal. Cadarnhaodd Jo Salway fod ei thîm yn ystyried ffyrdd o flaenoriaethu argymhellion yr Adroddiad Gwaith Teg er mwyn gweld ble y dylid rhoi pwyslais penodol a bod gofal cymdeithasol yn rhan o hyn. Pwysleisiodd nad oedd gwaith ar y Bil ar stop ond y byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn bragmataidd ynghylch yr hyn oedd yn

bosibl yn sgil pandemig COVID-19. Cadarnhaodd Tanya Palmer pa mor bwysig oedd y Bil ac y bydd undebau llafur yn sicrhau bod staff ar gael i gyfrannu at drafodaethau fel bod y Bil yn gallu mynd rhagddo. Eglurodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol fod yr amserlen ddeddfwriaethol ei hun yn creu pwysau, ac nid dim ond materion staffio. Cadarnhaodd Chris Llewelyn y gallai'r pandemig fod wedi achosi oedi i'r Bil, ond bod yr ymrwymiad cyffredinol i'w ddatblygu yn parhau.

7. Fforwm Gofal Cymdeithasol: Cynnydd Diweddaraf

- 7.1 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol am gyfnewid y ddwy eitem olaf ar yr agenda, fel bod cynnydd o ran y Fforwm Gofal Cymdeithasol yn dilyn y drafodaeth flaenorol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod angen canolbwyntio'n fwy ar ofal cymdeithasol. Cadarnhaodd y byddai papur yn cael ei lunio ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor yn canolbwyntio ar ddatblygu dull o gynnal y Fforwm Gofal Cymdeithasol. Croesawodd yr undebau llafur y papur hwn a gofynnwyd a fyddai'n cael ei lunio mewn partneriaeth. Cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ystyried hyn.
- 7.2 Cadarnhaodd Helen Arthur y byddai'n trefnu i ddrafft cychwynnol fod ar gael i'r Cyngor ei ystyried. Pwysleisiodd Jo Salway bwysigrwydd sicrhau bod y papur yn ystyried y ffyrdd gwahanol y datblygir gwaith partneriaeth yn y maes hwn.

Cam Gweithredu: Helen Arthur i drefnu i bapur fod ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddatblygu dull o gynnal y Fforwm Gofal Cymdeithasol a sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu ymhlith y partneriaid er mwyn iddynt leisio barn.

8. Bil Llywodraeth Leol: Diweddariad Cyffredinol

- 8.1 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol fod y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi cwblhau Cam 1 o broses y Pwyllgor o ran ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog, yn sgil y sefyllfa barhaus o ran COVID-19, fod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gofyn i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau roi'r gorau i graffu ar y Bil ar Gam 2 dros dro. Cytunwyd ar hyn a'r bwriad yw cyflwyno papur i'r Pwyllgor Busnes yn fuan yn amlinellu'r cynigion ar gyfer amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Bil. Cadarnhaodd y byddai pob partner yn cael gwybod am y cynnydd diweddaraf gan swyddogion.
- 8.2 Eglurodd Mike Payne fod rhai awdurdodau lleol yn poeni am y ddyled maent ynddi ar hyn o bryd ac effaith hyn ar eu dyfodol hirdymor. Cadarnhaodd Judith Cole fod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wrthi'n trafod hyn ag arweinwyr awdurdodau lleol.

Cam Gweithredu: Reg Kilpatrick i drefnu bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Cyngor am amserlen ddiwygiedig ar gyfer craffu ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) pan gaiff ei gadarnhau gan y Senedd.

Rhestr Bresenoldeb – Cyngor Partneriaeth y Gweithlu – 11 Mai 2020

Cabinet

Cadeirydd – Hannah Blythyn AC – Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Undebau Llafur

Tanya Palmer, Ysgrifennydd Rhanbarthol Dros Dro Unsain

Mike Payne, Uwch-drefnydd Undeb GMB

Julie Cook, Swyddog Cenedlaethol TUC Cymru

Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Busnes Corfforaethol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Jo Salway, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg, Swyddfa'r Prif Weinidog

Judith Cole, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Leol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Fliss Bennee, Dirprwy Gyfarwyddwr Technoleg a Digidol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Duncan Hamer, Dirprwy Gyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Gareth Bevington, Dirprwy Gyfarwyddwr Morol a Physgodfeydd, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Cyflogwyr

Chris Llewelyn, Prif Weithredwr CLILC

Richard Tompkins, Cyfarwyddwr Cyflogwyr GIG Cymru

Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru

Graham Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Strategol CLILC

Cydysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu

Karen Higgins, Pennaeth Cydysgrifenyddiaeth y Cyngor

Mark Lewis, Uwch-reolwr Polisi, Cydysgrifenyddiaeth y Cyngor

Sarah Abraham, Uwch-reolwr Polisi, Cydysgrifenyddiaeth y Cyngor

Ceri Williams, Uwch-reolwr Polisi, Cydysgrifenyddiaeth y Cyngor

Ymddiheuriadau

Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro TUC Cymru

Cofnod Camau Gweithredu

Camau'r Cyngor 11 Mai 2020		
Rhif	Cam Gweithredu	Perchennog
1	Helen Arthur i drefnu bod copi o ddogfen ganllaw iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gael i'r aelodau, drwy Gydysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.	Llywodraeth Cymru
2	Fliss Bennee i sicrhau bod Cell Cyngor Technegol COVID-19 yn blaenoriaethu cynrychiolwyr iechyd a diogelwch sefydliadau ac undebau llafur wrth rannu cyngor ar ddiogelwch yn y gweithle.	Llywodraeth Cymru
3	Helen Arthur i drefnu i bapur fod ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddatblygu dull o gynnal y Fforwm Gofal Cymdeithasol a sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu ymhlith y partneriaid er mwyn iddynt leisio barn.	Llywodraeth Cymru
4	Reg Kilpatrick i drefnu bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Cyngor am amserlen ddiwygiedig ar gyfer craffu ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) pan gaiff ei gadarnhau gan y Senedd.	Llywodraeth Cymru